www.xtrapapers.com

| Cyfenw *Surname* | Rhif y Ganolfan *Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd *Candidate Number* |
|---|---|---|
| Enwau Eraill *Other Names* | | 0 |

# TGAU

4554/02

## UNED 4
## *UNIT 4*

## CYMRAEG AIL IAITH
## *WELSH SECOND LANGUAGE*

## DARLLEN AC YSGRIFENNU
## *READING AND WRITING*

## HAEN UWCH
## *HIGHER TIER*

P.M. DYDD GWENER, 1 Mehefin 2012
*P.M. FRIDAY, 1 June 2012*

1 awr/*1 hour*

| Arholwr yn unig | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cwestiwn | Darllen | Ysgrifennu |
| 1 | | |
| 2 | | |
| 3 | | |
| 4 | | |

4554
020001

**CYFARWYDDIADAU**
***INSTRUCTIONS***

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio pensil na beiro gel. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.
*Use black ink or black ball-point pen. Do not use pencil or gel pen. Do not use correction fluid.*

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y bylchau ar ben y dudalen hon.
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*

Atebwch **bob** cwestiwn.
*Answer **all** questions.*

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau a ddarperir yn y papur cwestiynau hwn.
*Write your answers on the lines provided in this question paper.*

**GWYBODAETH**
***INFORMATION***

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

Nodir y marciau a ddyfernir ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau fel a ganlyn: [✓ = 2] ac ati.
*Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

J U N 1 2 4 5 5 4 0 2 0 1

ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

VP*(S12-4554-02)

www.xtrapapers.com



**1.** Darllenwch y ddau ddyddiadur canlynol a gwnewch y tasgau sy'n dilyn **yn Gymraeg**.
*Read the following two diaries and then complete the tasks that follow **in Welsh**.*

[16 + ✓ = 4] = **[20]**

Dyddiadur Jonathan

Dydd Mawrth.
Tim a fi wedi gorffen adeiladu ein *go kart* yn y wers Dylunio a Thechnoleg heddiw. Wedi ei yrru ar iard yr ysgol - mae'n mynd yn gyflym hefyd. Heno dw i'n mynd i ymarfer rygbi yn y clwb rygbi yn y dref achos mae gyda ni gêm fawr ddydd Sadwrn. Mae Huw, fy ffrind eisiau chwarae rygbi i'r tîm ond dydy e ddim digon ffit achos mae e'n ysmygu. Rhaid iddo fe stopio!

Dydd Iau.
Mwynhau'r wers Hanes heddiw - gwneud ffilm fideo am gastell Dolfawr. Pawb wedi cael cyfle i ddefnyddio'r camera digidol newydd. Grŵp o'r Clwb Ieuenctid yn helpu i lanhau'r afon. Mae eisiau i ni bobl ifanc helpu i godi sbwriel o'r afon er mwyn cael mwy o bysgod yno. Mynd ar fy meic mynydd heno gyda Carol fy nghariad.

Dydd Gwener.
Wedi bod allan yn y sinema heno i weld ffilm newydd Hugh Grant. Llawer o'r merched ysgol tu allan yn ysmygu cyn i'r ffilm ddechrau. Mae llawer o sbwriel ar y llawr tu allan i'r sinema ac mae'n chwythu i bob man. Mae eisiau llawer mwy o finiau sbwriel tu allan i'r sinema.

Dyddiadur Sue

Dydd Mawrth.
Nyrs yn yr ysgol heddiw yn siarad gyda ni am ysmygu ac yn dangos ysgyfaint person oedd wedi bod yn ysmygu am ugain mlynedd - roedd yn edrych yn ofnadwy! Wrth fy modd yn y wers Gyfrifiaduron heddiw - dysgu sut i wneud tudalen flaen papur newydd. Gobeithio fydd hi ddim yn bwrw glaw ar ôl ysgol achos dw i'n mynd adref ar y beic - ymarfer da i fi.

Dydd Iau.
Ein dosbarth ni wedi gofyn am focs i gadw papur i'w ailgylchu. Dw i'n meddwl ei fod yn syniad da.
Salad a ffrwythau i ginio heddiw achos dw i'n hoffi bwyta'n iach.
Mynd i Gyngor yr ysgol ar ôl cinio - mynd i ddweud bod eisiau cael paneli solar ar do'r ysgol i helpu'r amgylchedd. Gobeithio bydd y Pennaeth yn cytuno gyda ni.

Dydd Gwener.
Wedi bod i Stratford heddiw i weld drama Shakespeare gydag adran Saesneg yr ysgol. Trip ardderchog a dw i wedi mwynhau'n fawr. Dau o'r bechgyn wedi cael eu dal yn ysmygu yn y toiledau. Mae bechgyn yn dwp!


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

(i) Ysgrifennwch **yn Gymraeg** beth mae Jonathan a Sue yn ddweud yn eu dyddiaduron am y topigau canlynol.
*Write **in Welsh** what Jonathan and Sue say in their diaries about the following topics.* [16]

Jonathan

Gwaith ysgol

(i) Adeiladu yn y wers Dylunio a Thechnoleg .................................................. [1]

(ii) Gwneud gyda Hanes .................................................. [1]

Cadw'n iach a heini – gwneud beth?

(i) .................................................. [1]

(ii) .................................................. [1]

Ysmygu. Beth mae Jonathan yn ddweud?

(i) .................................................. [1]

(ii) .................................................. [1]

Yr amgylchedd. Syniadau i helpu'r amgylchedd.

(i) .................................................. [1]

(ii) .................................................. [1]

Sue

Gwaith ysgol

(i) Dysgu yn y wers Gyfrifiaduron .................................................. [1]

(ii) Gweld gyda Saesneg .................................................. [1]

Cadw'n iach a heini – gwneud beth?

(i) .................................................. [1]

(ii) .................................................. [1]

Ysmygu. Beth mae Sue yn ddweud?

(i) .................................................. [1]

(ii) .................................................. [1]

Yr amgylchedd. Syniadau i helpu'r amgylchedd.

(i) .................................................. [1]

(ii) .................................................. [1]

4554
020003



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

**Trosodd.**
***Turn over.***

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

(ii) Ysgrifennwch **ddwy** frawddeg **yn Gymraeg**, yn dweud beth rydych chi'n wneud sy'n debyg a/neu'n wahanol i Jonathan a/neu Sue.
*Write* ***two*** *sentences* ***in Welsh****, saying what you do which is the same and/or different to Jonathan and/or Sue.* [✓ = 4]

(a) ..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

(b) ..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

**2.** Ysgrifennwch lythyr **yn Gymraeg** at ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Trelew, Patagonia. Cofiwch fod Patagonia yn Ne America ac er eu bod yn siarad Cymraeg, mae bywyd yno yn wahanol iawn i fywyd yng Nghymru.
*Write a letter **in Welsh** to pupils at Ysgol Gymraeg Trelew, Patagonia. Remember that Patagonia is in South America and although they speak Welsh, life there is very different to life in Wales.*

[15 + ✓ = 15] = **[30]**

Soniwch am:
*Write about:*

(i) Eich cartref a'ch teulu. Gofynnwch gwestiynau am eu cartrefi nhw.
*Your home and your family. Ask questions about their homes.* [3]

(ii) Eich ysgol – eich hoff a'ch cas weithgareddau. Gofynnwch am eu hysgol nhw. Oriau ysgol, gwyliau, gwersi, dillad ysgol, ayyb.
*Your school – your favourite activities and those you hate. Ask about their school. School hours, holidays, lessons, school uniform, etc.* [5]

(iii) Penwythnos arbennig rydych chi wedi cael yn ddiweddar. (Defnyddiwch yr Amser Gorffennol.)
Beth wnaethoch chi? Ble aethoch chi? Pwy weloch chi? Pam bod y penwythnos yn arbennig?
*A special weekend that you have had recently. (Use the Past Tense.)*
*What did you do? Where did you go? Who did you see? Why the weekend was special?* [7]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

4554
020005



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.



**Trosodd.**
***Turn over.***

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

4554 020007



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (4554-02)


**Trosodd.**
***Turn over.***

www.xtrapapers.com



**3.** Darllenwch erthygl Iolo Williams ac yna gwnewch y tasgau sy'n dilyn **yn Gymraeg**.
*Read Iolo Williams' article and then complete the tasks that follow **in Welsh**.*

[16 + ✓ = 4] = **[20]**



Pan roeddwn yn fachgen ysgol ac yn byw wrth Lyn Fyrnwy, roeddwn i wrth fy modd yn cerdded ar fynydd y Berwyn ac edrych ar natur a'r adar yn arbennig. Roeddwn i'n mwynhau chwarae pêl-droed a rygbi ac unrhyw beth arall, allan yn yr awyr agored.

Yn nosbarth chwech, astudiais i Ffrangeg a Bioleg ond doeddwn i ddim yn dda iawn yn fy ngwaith ysgol. Ar ddiwedd blwyddyn 13, roeddwn i'n meddwl ymuno â'r fyddin ond penderfynais fynd i'r coleg yn Llundain i astudio Ecoleg - sef astudio'r amgylchedd. Ar ôl graddio, gweithiais i am wyth mis ar fferm ac yna gweithio i'r comisiwn Coedwigaeth.

Ces i gyfle yn 1985 i ymuno â'r *RSPB*, a mwynhau'r gwaith yn fawr am 14 mlynedd. Yn y cyfnod yma, roeddwn i'n gwneud gwaith radio a theledu'n gyson a hefyd yn cael cyfle i ysgrifennu erthyglau am yr amgylchedd a byd natur.

Yn 1997, gofynnodd BBC *Wales* i mi wneud cyfres o raglenni teledu ar fywydau chwech o bobl oedd yn byw a gweithio yn Eryri. Mwynheuais i'r gwaith yn fawr a ches gynnig gwneud cyfres arall ar adar wedyn. Penderfynais adael y *RSPB* yn 1999 a gweithio'n llawn amser ar y cyfryngau - ar y teledu a'r radio ac ysgrifennu erthyglau mewn cylchgronau.
Yn ddiweddar, mwynheuais i wneud rhaglenni natur am yr arth frown yn Rwsia.

Gan fy mod yn teithio llawer dros y byd mewn awyrennau, rwyf i a'r teulu yn trio gwneud llawer o bethau i helpu'r amgylchedd pan rydyn ni gartref.

Rydyn ni wedi adeiladu ein tŷ i ddefnyddio llai o ynni. Byddwn ni'n tyfu ein ffrwythau a'n llysiau ein hunain ac yn ailgylchu popeth rydyn ni'n gallu. Mae fy ngwraig, Ceri, yn siopa yn y siopau lleol. Mae pawb yn ein pentref ni yn helpu'r amgylchedd trwy rannu ceir i fynd i'r ysgol a'r gwaith. Hefyd, rydyn ni'n rhoi dillad babanod a phlant bach i'r siop elusen.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod eisiau adeiladu fferm wynt fawr yng Nghanolbarth Cymru gyda channoedd o felinau gwynt. Rydw i'n anghytuno â hyn yn llwyr achos bydd yn cael effaith ddrwg iawn ar gefn gwlad a dydy melinau gwynt ddim yn effeithiol beth bynnag. Bydd y peilonau sy'n cario'r trydan yn difetha golygfeydd hyfryd Powys a byd natur hefyd. Rydw i'n bersonol yn fodlon protestio'n galed yn erbyn hyn.


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

Gallwch ateb *(a)*, *(b)* a *(c)* gan ddefnyddio pwyntiau bwled.
*You may answer (a), (b) and (c) using bullet points.*

*(a)* Ysgrifennwch **4** ffaith am Iolo Williams cyn mynd i'r coleg.
*Write **4** facts about Iolo Williams before going to college.* [4]

- ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

- ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

- ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

- ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

*(b)* Mae Iolo Williams wedi gwneud llawer o waith ar y radio a'r teledu. Ysgrifennwch am **ddau** beth mae e wedi gwneud.
*Iolo Williams has done a lot of work on the radio and television. Write about **two** things he's done.* [4]

- ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

- ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

*(c)* Ysgrifennwch am **4** peth mae Iolo, y teulu a phobl y pentref yn wneud i helpu'r amgylchedd.
*Write **4** facts about what Iolo, his family and the people of the village are doing to help the environment.* [8]

- ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

- ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

- ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

- ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

**Trosodd.**
***Turn over.***

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

*(ch)* Ydych chi'n cytuno gyda beth mae Iolo Williams yn dweud am felinau gwynt a pheilonau? Pam? **Cofiwch ymateb yn bersonol gan roi rhesymau da.**
**Atebwch mewn brawddegau.**
*Do you agree with what Iolo Williams has to say about wind turbines and pylons? Why?*
***Remember to answer in a personal way, giving good reasons.***
***Answer in sentences.*** [✓ = 4]

(i) ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

**4.** Ysgrifennwch erthygl **yn Gymraeg** ar **un** o'r canlynol ar gyfer y cylchgrawn Lingo.
*Write an article **in Welsh** on **one** of the following for the magazine Lingo.* [15 + ✓ = 15] = **[30]**

(i) Mae dathlu ar ddiwedd arholiadau TGAU yn syniad twp achos mae pobl ifanc yn gwneud pethau dwl fel ysmygu, yfed alcohol a chymryd cyffuriau.
*Celebrating at the end of the GCSE examinations is a stupid idea because young people do silly things like smoking, drinking alcohol and taking drugs.*

(ii) Mae technoleg wedi newid bywyd pawb heddiw.
*Technology has changed everyone's life today.*

(iii) Sut hoffech chi weld bywyd ysgol yn newid er gwell?
*How would you like to see school life changing for the better?*

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

www.xtrapapers.com



Arholwr
yn unig
*Examiner only*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.